**Adroddiad ar**

**Ysgol Gynradd Parcyrhun**

**Heol Villiers**
**Rhydaman**
**Caeryrddin**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA18 3HB**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2025**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Parcyrhun

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Parcyrhun |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Categori 2 – dwy iaith |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | d/b |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 208 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 165 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 14 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 22.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 8.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 22.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 4% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 21/09/2021 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 05/12/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 27/01/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a diogel sy'n gofalu'n hynod dda am ei disgyblion. Mae staff bob amser yn parchu disgyblion ac yn eu trin yn deg. Mae arweinwyr yn arwain yr ysgol yn effeithiol a phwrpasol, sy'n gwneud yn sicr bod bob disgybl yn cael cyfleoedd cyfartal yn holl weithgareddau'r ysgol dros amser. Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer staff, disgyblion a nhw eu hunain. Maent yn adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd mae angen iddi eu gwella yn dda, ac yn cynllunio'n effeithiol i sicrhau gwelliant dros amser.

Mae'r adeilad yn lliwgar, ysgogol a difyr i ddisgyblion, sy'n eu hannog i fwynhau dysgu. Mae athrawon ac oedolion eraill, ar y cyfan, yn addysgu disgyblion yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, mathemategol, cymhwysedd digidol a'u medrau ehangach. Er bod gan y rhan fwyaf fedrau mathemategol cadarn, nid ydynt bob amser yn cael digon o gyfle i'w hymarfer yn gyson mewn cyd-destunau bywyd go iawn.

Mae'r cwricwlwm yn bodloni gofynion heddiw yn dda, ac yn canolbwyntio'n briodol ar addysgu disgyblion am eu hardal leol, Cymru a'r byd. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion ieuengaf yn effeithiol iawn ac yn eu paratoi'n dda i fedru dysgu heb gael gormod o gymorth gan oedolion. Mae athrawon, ar y cyfan, yn gwybod beth maent am i ddisgyblion ei ddysgu a pham. Er hyn, nid ydynt bob amser yn canolbwyntio digon ar ba fedrau maent am iddynt eu dysgu, gan roi gormod o sylw i'r cynnwys. Mae hyn yn golygu nad oes bob amser ddigon o ddyfnder yn y dysgu ac nid yw tasgau'n adeiladu digon ar waith blaenorol.

Mae staff yn annog disgyblion i fod yn awyddus i ddysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn ymdrechu'n dda yn eu tasgau ac yn cydweithio'n llwyddiannus i ddatrys unrhyw broblemau maen nhw'n eu cael gyda'r gwaith. Mae'r holl ddisgyblion, dros amser, yn cael cyfleoedd i ddod yn aelodau o ystod o bwyllgorau llais y disgybl a gwneud penderfyniadau ar sut i wella'r ysgol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1 Mireinio gweithdrefnau cynllunio i sicrhau bod dyfnder yn y dysgu, a bod yr amcanion yn glir ac yn adeiladu’n drefnus ar rai blaenorol

A2 Darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymhwyso’u medrau rhifedd mewn sefyllfaoedd go iawn ar draws y cwricwlwm

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae'r ysgol yn gymuned hynod ofalgar, lle mae arweinwyr, staff a disgyblion yn dangos lefel uchel o barch a thegwch tuag at ei gilydd. Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn teimlo’n ddiogel yno, eu bod yn teimlo’n rhydd rhag unrhyw fwlio neu aflonyddu a’u bod yn hapus i fynychu’n ddyddiol.

Mae arweinwyr yn darparu cyfeiriad strategol effeithiol i’r ysgol, gan sicrhau ei bod yn hafan hynod gynhwysol i ddisgyblion. Maent yn rhoi pwyslais parhaus ar feithrin gwaith tîm ymhlith y staff ac ar wella dysgu a lles yr holl ddisgyblion. Mae hynny'n cynnwys y rheini y mae tlodi yn cael effaith arnynt, y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a’r rheini sy’n mynychu’r uned i ddisgyblion sydd â nam ar eu clyw. Mae gweledigaeth arweinwyr yn glir ac yn seiliedig ar danio dychymyg disgyblion a’u sbarduno i ddysgu a phrofi’r wefr a ddaw o lwyddo. Mae arweinwyr yn gosod a chyfleu disgwyliadau uchel ar gyfer staff, disgyblion a nhw eu hunain. Maent yn ystyried baich gwaith a lles staff yn barhaus ac yn eu cefnogi i fynd i’r afael â’r hyn sydd ei angen arnynt i gyflawni eu gwaith yn effeithiol.

Mae safon addysgu yn gyffredinol gadarn ar draws yr ysgol. Mae athrawon ac oedolion eraill yn meithrin perthynas waith hynod effeithiol â’r disgyblion ac yn hwyluso’r dysgu’n llwyddiannus. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd dysgu yn ysgogol a difyr i ddisgyblion, sy’n eu hannog i fwynhau dysgu. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rheini sydd ag ADY, Saesneg fel iaith ychwanegol, sydd â nam ar eu clyw ac sydd o dan anfantais o ganlyniad i dlodi, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, mathemategol, cymhwysedd digidol a’u medrau ehangach. Er bod gan y

rhan fwyaf fedrau mathemategol cadarn, nid ydynt bob amser yn cael digon o gyfle i'w cymhwyso'n gyson mewn cyd-destunau bywyd go iawn.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu lefel briodol o her i ddisgyblion ac yn arddangos disgwyliadau uchel ohonynt. Maent yn eu holi'n effeithiol i gefnogi eu cynnydd ac, ar y cyfan, mae eu hadborth yn gymorth iddynt wella'u dysgu.

Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus â nifer helaeth o egwyddorion Cwricwlwm i Gymru. Mae'r ddarpariaeth gyfredol yn gynhwysol a threfnus. Mae'n darparu ehangder addas o gyfleoedd dysgu i ddisgyblion ar draws y mwyafrif o feysydd dysgu a phrofiad mewn amrywiol gyd-destunau. Mae athrawon yn ystyried syniadau disgyblion yn llwyddiannus wrth gynllunio profiadau dysgu iddynt. Maent yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o hanes, treftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol, ac amrywiaeth ethnig eu hardal leol, Cymru, a'r byd yn effeithiol iawn. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion ieuengaf yn hynod lwyddiannus. Mae'n eu hannog yn barhaus i ddod yn ddysgwyr annibynnol o oed ifanc iawn.

Lle bo'n briodol, mae athrawon ac oedolion eraill, ar y cyfan, yn glir am yr hyn maent am i ddisgyblion ei ddysgu a pham. Fodd bynnag, ar adegau, nid ydynt wedi ystyried digon ba fedrau maent am i ddisgyblion eu dysgu, gan roi gormod o sylw i'r cynnwys. O ganlyniad, nid oes bob amser ddigon o ddyfnder yn y dysgu ac nid yw tasgau'n adeiladu'n ddigon uniongyrchol ar gysylltiadau pwrpasol i sicrhau dilyniant yn y dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon ac oedolion eraill yn cefnogi ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn fwriadus a llwyddiannus. Maent hefyd yn helpu disgyblion i ddatblygu'r medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i wneud dewisiadau iach am eu ffordd o fyw ac effaith hynny ar eu ffitrwydd a'u hiechyd.

Maent yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu yn hynod effeithiol. Mae hyn yn golygu bod y rhan fwyaf yn ymgysylltu'n gyflym â'u tasgau ac yn cydweithio'n llwyddiannus. Mae llawer yn dyfalbarhau'n dda ac yn chwilio am atebion newydd pan fyddant yn wynebu anawsterau.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer sicrhau prydlondeb a phresenoldeb cyson disgyblion yn effeithiol. Yn yr un modd, mae eu gweithdrefnau i olrhain a monitro cynnydd disgyblion yn gadarn a thrylwyr. Mae hyn yn galluogi'r staff i fonitro presenoldeb a chynnydd unigolion ac i ddarparu'n briodol ar eu cyfer.

Mae'r ethos hynod gynhwysol sy'n bodoli yn yr ysgol yn sicrhau bod bob un disgybl yn cael cyfleoedd cyfartal i gymryd rhan yn holl weithgareddau'r ysgol yn eu tro. Mae hyn yn wir am y cyfleoedd gwerthfawr a gânt i ddod yn aelodau o ystod o bwyllgorau llais y disgybl a gwneud penderfyniadau ar sut i wella'r ysgol. Er enghraifft, mae'r Lleisiau Lles wedi mynd

ati’n ddiweddar i ddylunio poster i esbonio i’w cyfoedion y gwahaniaeth rhwng bwlio ac anghydweld.

Mae arweinwyr yn datblygu perthnasoedd cynhyrchiol ag ystod o bartneriaid sy’n cynnwys rhieni, ysgolion eraill y clwstwr, swyddogion yr awdurdod lleol a’r gymuned. Mae hyn yn cyfrannu’n uniongyrchol at sicrhau, er enghraifft, bod rhieni’n deall sut i gefnogi eu plant gyda’u gwaith cartref, bod disgyblion yn barod ar gyfer y cam nesaf yn eu dysgu a’u bod yn teimlo’n rhan greiddiol o’u cymuned leol.

Mae arweinwyr yn gwerthuso gwaith yr ysgol yn rheolaidd ac yn adnabod ei chryfderau a’r meysydd mae angen iddi eu gwella. Mae gweithdrefnau gwella yn hynod fanwl ac yn rhoi blaenoriaeth briodol i faterion pwysig ac amserol. Mae gan arweinwyr hanes llwyddiannus o wneud gwelliannau, a’u cynnal, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion dros amser. Maent yn cynllunio a chyflwyno cyfleoedd dysgu proffesiynol synhwyrol a phwrpasol i’r staff, sy’n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion. Maent yn hyrwyddo’r Gymraeg yn dda iawn, ac yn cymryd camau cadarn i fynd i’r afael â blaenoriaethau cenedlaethol eraill. Mae’r rheini’n cynnwys gwella addysgu, diwygio’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY a mynd i’r afael ag effaith tlodi.

Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o’u rolau fel ffrindiau beirniadol. Maent yn ymweld â’r ysgol yn rheolaidd ac yn cynnal teithiau dysgu, sgwrsio â disgyblion a staff ac yn trafod cynnydd yn briodol gydag arweinwyr ar bob lefel. Mae hyn yn cyfrannu at eu gallu i gynorthwyo’r pennaeth a staff i bennu blaenoriaethau gwella priodol ar gyfer yr ysgol. Maent yn rheoli adnoddau’r ysgol yn ddarbodus, ac yn sicrhau bod diwylliant cadarn o ddiogelu yn bodoli yno.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 31/03/2025